# Amlinelliad o'r Cymhwyster TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant – Fersiwn Ymgynghori



Yn arbennig i Gymru.
Yn barod i'r byd.

## Cyflwyniad

Yn y ddogfen hon mae trosolwg ar lefel uchel o'r cymhwyster CBAC TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant sydd ar gael i'w addysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2026.

Mae'n seiliedig ar Feini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau Cymru (https://cymwysterau.cymru/media/532jvasq/meini-prawf-cymeradwyo-tgau-iechyd-a-gofal-cymdeithasol-a-gofal-plant.pdf (cymwysterau.Cymru)). **Rhaid** i'n cymhwyster ni fodloni'r gofynion hyn.

Bydd yr amlinelliad hwn o'r cymhwyster yn gweithio fel canllaw ar gyfer datblygu'r Fanyleb a'r Deunyddiau Asesu Enghreifftiol (DAE). Mae'n bosibl y bydd angen ailedrych ar agweddau ar yr amlinelliad os bydd materion yn codi yn ystod y broses ddatblygu.

## Trosolwg o'r Cymhwyster

Bydd y cymhwyster TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru drwy wneud y canlynol:

- cefnogi'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig[1], gan roi cyfle i'r dysgwyr:
  - ddeall y ffactorau sy'n effeithio ar iechyd corfforol a llesiant drwy gydol oes unigolyn, gan gynnwys ymddygiadau sy'n hybu iechyd e.e. gweithgarwch corfforol, a deall ymddygiadau sy'n niweidiol i iechyd
  - datblygu ymddygiadau cadarnhaol, gwybodus sy'n annog dysgwyr i barchu a gofalu am eu hunain ac eraill mewn cyd-destun iechyd a gofal cymdeithasol, ac yng nghyd-destun gofal plant
  - archwilio’r cysylltiadau rhwng eu profiadau, eu hiechyd meddwl a’u llesiant emosiynol
  - creu diwylliant sy'n normaleiddio siarad am iechyd meddwl a llesiant emosiynol mewn iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant
  - datblygu’r sgiliau meddwl beirniadol angenrheidiol er mwyn gallu pwyso a mesur goblygiadau posibl eu penderfyniadau, gan gynnwys y risg, iddyn nhw ac i eraill
  - ymwneud yn feirniadol â dylanwadau cymdeithasol o fewn eu diwylliant eu hunain yn ogystal â diwylliannau eraill, er mwyn deall sut y mae normau a gwerthoedd yn datblygu
  - deall sut mae penderfyniadau a gweithredoedd yn cael effaith ar y dysgwyr eu hunain, ar eraill, ac ar gymdeithas ehangach, a hynny yn y presennol a’r dyfodol
  - deall y ffactorau sy’n dylanwadu ar wneud penderfyniadau, gan eu rhoi mewn gwell sefyllfa i wneud penderfyniadau gwybodus ac ystyriol mewn perthynas ag iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant
  - datblygu’r sgiliau meddwl beirniadol angenrheidiol er mwyn gallu pwyso a mesur goblygiadau posibl eu penderfyniadau yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant.

- cefnogi'r egwyddorion cynnydd[2] drwy annog dysgwyr i:
  - ddatblygu eu hannibyniaeth a'u gweithrediaeth mewn materion sy'n ymwneud ag iechyd a llesiant, gan arwain at gyfrifoldeb cynyddol am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain
  - datblygu gwybodaeth gysyniadol a dealltwriaeth feirniadol mewn amrywiaeth o agweddau ar iechyd a llesiant ac ymddygiad personol
  - datblygu cysylltiadau rhwng agweddau ar iechyd a llesiant ac ystod eang o bynciau a materion mewn cyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant

---

[1] https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/iechyd-a-lles/datganiadau-o-r-hyn-sy-n-bwysig
[2] https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/iechyd-a-lles/egwyddorion-cynnydd



© WJEC CBAC Ltd 2024.

- datblygu gwerthfawrogiad o anghenion eraill mewn cyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant ac effaith penderfyniadau, camau gweithredu ac amgylchiadau
- dod yn fwy cymdeithasol gyfrifol
- datblygu dealltwriaeth o eiriolaeth ar ran eu hunain ac ar ran eraill drwy gyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant

- cefnogi'r ystyriaethau pwnc-benodol ar gyfer TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant[3] drwy roi'r cyfle i ddysgwyr:
  - datblygu sgiliau llythrennedd, gallu trefnu ysgrifennu ac addasu iaith yn hyderus, gan alluogi dysgwyr i ymgeisio am lwybrau dysgu a gyrfa o'u dewis, ym maes iechyd a gofal cymdeithasol a/neu ofal plant o bosibl
  - cefnogi dysgwyr i archwilio a deall newidiadau datblygiadol ar hyd y rhychwant oes yn fanwl, yn ogystal â sut mae'r newidiadau hynny yn effeithio ar unigolion mewn amrywiaeth o ffyrdd gwahanol
  - dysgu a deall sut i asesu a rheoli risg fel y gallan nhw gadw eu hunain ac eraill yn ddiogel, gan gynnwys diogelu mewn cyd-destun iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant
  - adfyfyrio ar oblygiadau tymor byr, tymor canolig a hirdymor y penderfyniadau maen nhw'n eu gwneud. Dylid cydnabod nad oes gan ddysgwyr o angenrheidrwydd gyfrifoldeb dros lawer o'r penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw a bod y cyfrifoldeb hwn yn tyfu dros gyfnod o amser
  - deall y rôl y gall dylanwadau cymdeithasol ei chwarae mewn perthynas ag ymddygiad dysgwyr, a'r dylanwadau a all hyrwyddo ac annog ymddygiadau iach er lles y gymdeithas, yn ogystal â'r rhai sy'n arwain at faterion megis gwahaniaethu, hiliaeth neu ragfarn ar draws y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant
  - deall rôl a phwysigrwydd cydberthnasau megis teulu a chyfeillion, anifeiliaid/anifeiliaid anwes, cyfoedion, proffesiynol, rhithiol, rhamantus, rhywiol, crefyddol ac ysbrydol – drwy gyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant, a'r cydberthnasau hynny nad ydynt eto'n gyfarwydd iddyn nhw ond eu bod yn debygol iawn o ddod ar eu traws yn ystod eu bywydau neu wrth weithio yn y sectorau.

[3] https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/iechyd-a-lles/cynllunio-eich-cwricwlwm/


© WJEC CBAC Ltd 2024.

## Strwythur y Cymhwyster

Mae'r strwythur a ganlyn wedi'i ragnodi gan y Meini Prawf Cymeradwyo a gyhoeddwyd gan Cymwysterau Cymru, Mehefin 2023.

| |
|---|
| **Uned 1: Byw yng Nghymru**<br>Arholiad ysgrifenedig<br>40% o'r cymhwyster<br>Ar gael yn ddigidol ac ar bapur |
| **Uned 2: Iechyd a Gofal Cymdeithasol Oedolion**<br>Asesiad di-arholiad<br>30% o’r cymhwyster<br>Wedi'i osod gan CBAC<br>Wedi'i farcio gan y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC |
| **Uned 3: Gofal Plant**<br>Asesiad di-arholiad<br>30% o’r cymhwyster<br>Wedi'i osod gan CBAC<br>Wedi'i farcio gan y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC |

Dyma'r canrannau arfaethedig ar gyfer y tri amcan asesu:

| | | |
|---|---|---|
| **AA1** | **Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth** o gysyniadau, gwerthoedd a materion ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant. | 30% |
| **AA2** | **Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth** o gysyniadau, gwerthoedd a materion ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant. | 40% |
| **AA3** | **Dadansoddi, gwerthuso ac ymchwilio** i werthoedd, materion a darpariaeth ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant, gan lunio barnau wedi'u rhesymu a dod i gasgliadau. | 30% |

Cymhwyster unedol fydd hwn. Dylid addysgu Uned 1 cyn Uned 2 ac Uned 3, gan fod y cynnwys yn darparu gwybodaeth a dealltwriaeth graidd ar gyfer y cymhwyster cyfan. Nid yw trefn gyflwyno Uned 2 ac Uned 3 yn awgrymu unrhyw hierarchaeth.

Bydd Uned 1 ar gael bob blwyddyn o Haf 2027. Bydd yn cael ei gosod a'i marcio gan CBAC a bydd ar gael ar ffurf ddigidol ac ar bapur. Gellir ei chwblhau yn ystod haf Blwyddyn 10 neu Flwyddyn 11.

Caiff briffiau asesu Uned 2 ac Uned 3 eu rhyddhau bob blwyddyn drwy'r Porth ar ddechrau mis Medi, gan ddechrau o fis Medi 2027. Gall Uned 2 ac Uned 3 gael eu cwblhau unrhyw bryd yn ystod yr ail flwyddyn o astudio (Blwyddyn 11) a'u cyflwyno i CBAC ym mis Mai. Rhaid i ganolfannau sicrhau mai **dim ond** pan fydd dysgwyr wedi ymgymryd â'r addysgu a'r dysgu angenrheidiol ac wedi datblygu'r sgiliau a'r wybodaeth ofynnol y caiff asesiad Uned 2 ac Uned 3 ei gwblhau.


© WJEC CBAC Ltd 2024.
DRAFT

## Gwybodaeth am Unedau

Bydd dysgwyr yn cael cyfleoedd i archwilio hawliau dynol ac amrywiaeth drwy'r tair uned, gan gynnwys ystyried y canlynol:

- mynediad at wasanaethau ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant
- effaith y broses o ddarparu a chyflawni gwasanaethau ar ganlyniadau mewn perthynas ag iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant
- safbwyntiau, hunaniaeth, diwylliant, profiadau a chyfraniadau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol.

**Uned 1 Byw yng Nghymru – Arholiad Ysgrifenedig**

**Pwrpas yr uned hon yw datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:**

- cylchred bywyd a'r ffactorau sy'n effeithio ar dwf a datblygiad
- hybu a chynnal iechyd a llesiant ac adnoddau y gellir eu defnyddio i fesur a chefnogi hyn
- egwyddorion a gwerthoedd craidd, yn seiliedig ar ddeddfwriaeth a darparu gwasanaethau mewn cyd-destun Cymreig ar draws y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant.

Bydd yr uned hon yn canolbwyntio ar:

- hybu a chynnal iechyd a llesiant unigolion drwy gydol eu hoes
- twf, datblygiad a llesiant dynol drwy gydol cylchred bywyd
- ffactorau sy'n effeithio ar dwf, datblygiad a llesiant dynol drwy gydol cylchred bywyd
- dangosyddion ac adnoddau i fesur a chefnogi iechyd a llesiant
- egwyddorion, gwerthoedd a dulliau craidd wrth weithio ym maes iechyd a gofal, a gofal plant
- deddfwriaeth a darparu gwasanaethau ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant
- y Gymraeg a diwylliant Cymru ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant.

Caiff yr uned ei hasesu drwy arholiad ysgrifenedig (digidol neu ar bapur) a fydd ar gael yng nghyfres haf y cwrs a bydd ar gael bob blwyddyn o gyfres haf 2027 ymlaen. Bydd cymysgedd o fathau o gwestiynau a fydd yn targedu AA1, AA2 ac AA3. Bydd y pwysoli uwch am AA1. Mae'n debygol y bydd yr arholiad tuag 1 awr a 30 munud o hyd.

**Uned 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol Oedolion – Asesiad Di-arholiad**

**Pwrpas yr uned hon yw meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:**

- anghenion unigolion a chyflyrau ac afiechydon allweddol mewn oedolaeth
- sut mae gweithwyr proffesiynol yn gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol oedolion er mwyn cyflawni canlyniadau cadarnhaol
- rôl hybu iechyd ym maes iechyd y cyhoedd yng Nghymru.

Bydd yr uned hon yn canolbwyntio ar:

- fathau o ofal i ddiwallu anghenion unigol a chyflawni canlyniadau cadarnhaol
- sut mae gweithwyr proffesiynol yn gweithio er mwyn diwallu anghenion ym maes iechyd a gofal cymdeithasol oedolion
- iechyd y cyhoedd a hybu iechyd ym maes iechyd a gofal cymdeithasol
- cyflyrau ac afiechydon allweddol mewn oedolaeth.



© WJEC CBAC Ltd 2024.

DRAFT

Defnyddir asesiad di-arholiad i asesu'r uned hon. Cyflwynir hyn ym mlwyddyn olaf y cwrs fel rhan o'r gyfres haf. Rhaid cyflwyno'r asesiad di-arholiad yn ddigidol. Bydd cymysgedd y tasgau yn yr uned hon yn targedu AA2 ac AA3. Bydd pwysoli uwch am AA2 nag AA3. Bydd yr uned hon yn cael ei gosod gan CBAC, ei marcio gan y ganolfan a'i chymedroli gan CBAC.

**Uned 3 Gofal Plant – Asesiad Di-arholiad**

**Pwrpas yr uned hon yw meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:**

- Datblygiad corfforol, deallusol, ieithyddol, emosiynol a chymdeithasol (PILES)
- cyflyrau ac afiechydon allweddol ymhlith plant
- sut mae gweithwyr proffesiynol yn gweithio, gan gynnwys chwarae a gwaith chwarae, i ddiwallu anghenion plant yng Nghymru er mwyn cyflawni canlyniadau cadarnhaol.

Bydd yr uned hon yn canolbwyntio ar:

- PILES
- chwarae a gwaith chwarae
- mathau o ofal ac ymyriadau i ddiwallu anghenion plant a chyflawni canlyniadau cadarnhaol
- sut mae gweithwyr proffesiynol yn gweithio i ddiwallu anghenion plant
- hybu iechyd ac ymyrraeth gynnar ym maes gofal plant
- cyflyrau ac afiechydon allweddol ymhlith plant.

Defnyddir asesiad di-arholiad i asesu'r uned hon. Cyflwynir hyn ym mlwyddyn olaf y cwrs fel rhan o'r gyfres haf. Rhaid cyflwyno'r asesiad di-arholiad yn ddigidol. Bydd cymysgedd y tasgau yn yr uned hon yn targedu AA2 ac AA3. Bydd pwysoli uwch am AA2 nag AA3. Bydd yr uned hon yn cael ei gosod gan CBAC, ei marcio gan y ganolfan a'i chymedroli gan CBAC.

## Ystyriaeth o hydrinedd, ymgysylltiad, dibynadwyedd a dilysrwydd

Wrth ddatblygu'r amlinelliad arfaethedig hwn o'r cymhwyster, rydym wedi ystyried hydrinedd, ymgysylltiad, dilysrwydd a dibynadwyedd, a hefyd sut i gydbwyso'r ystyriaethau hyn yng nghyd-destun gofynion y Meini Prawf Cymeradwyo.

Mae'r Meini Prawf Cymeradwyo yn ei gwneud yn ofynnol i 40% o'r cymhwyster gael ei asesu drwy arholiad ysgrifenedig a gaiff ei osod a'i farcio gan CBAC. Bydd yr arholiad ar gael yn ddigidol yn ystod cyfres haf Blwyddyn 10. Mae ganddon ni rywfaint o bryderon ynghylch cynnig y papur ar ffurf digidol ac ar bapur; mae cwestiwn am hyn yn yr arolwg ac rydym yn croesawu eich safbwyntiau. Credwn fod modd asesu pwrpas a chynnwys Uned 1 yn ddilys drwy arholiad, a gall cymysgedd o fathau o gwestiynau ein helpu i'w gwneud mor ddilys â phosibl. Pan fyddwn yn datblygu asesiadau, byddwn yn sicrhau bod yr holl dasgau'n targedu'r lluniad perthnasol, eu bod yn gytbwys o ran y cynnwys yr ymdrinnir ag ef dros amser a bod yr eitemau asesu a'r canlyniadau dysgu'n cyfateb. Lle bynnag y bo'n briodol gwneud hynny byddwn yn defnyddio data sydd ar gael i ni o ran sut y gweithredodd yr asesiad. Er mwyn sicrhau dibynadwyedd, byddwn yn gwneud yn siŵr bod yr unedau arholiad yn targedu'r un pwysoliadau o ran amcanion asesu a bod lefel y galw'n gyson ym mhob cyfres. Datblygir meini prawf marcio a bydd aseswyr yn cael eu hyfforddi o ran sut i'w cymhwyso'n gyson.

DRAFT



© WJEC CBAC Ltd 2024.

Bydd y 60% o'r cymhwyster sy'n weddill yn cael ei rannu rhwng dau asesiad di-arholiad. Bydd CBAC yn eu gosod, y ganolfan yn eu marcio a CBAC yn eu cymedroli.  Rhaid eu cyflwyno'n ddigidol. Rhaid i un o'r asesiadau di-arholiad ganolbwyntio ar gymhwyso, gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth mewn perthynas ag iechyd a gofal cymdeithasol oedolion yng Nghymru. Bydd hyn yn cyfrif am 30% o'r cymhwyster (Uned 2). Rhaid i'r asesiad di-arholiad arall ganolbwyntio ar gymhwyso, gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth mewn perthynas â gofal plant yng Nghymru. Bydd hyn yn cyfrif am 30% o'r cymhwyster (Uned 3). Mae hyn yn achosi rhai heriau o ran hydrinedd ac rydym yn ceisio lleihau'r rhain drwy ganiatáu i ganolfannau rannu'r llwyth gwaith a'r asesu dros y flwyddyn olaf. Byddwn felly'n rhyddhau briffiau aseiniadau Uned 2 **ac** Uned 3 yn flynyddol ar ddechrau mis Medi, gan ddechrau o fis Medi 2027. Bydd hyn yn sicrhau bod canolfannau yn cael rhywfaint o ddewis o ran penderfynu pryd i gynnal yr asesiadau di-arholiad gan y bydd athrawon yn cael yr hyblygrwydd i ddewis pa un o'r unedau asesiad di-arholiad y maent am ei chwblhau gyntaf yn y flwyddyn astudio olaf. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i'r amser asesu sydd wedi'i ddyrannu i'r ddau asesiad di-arholiad er mwyn ceisio lleihau'r effaith ar addysgu a dysgu ac rydym yn cynnig tua 10 awr ar gyfer pob uned (mae asesiad di-arholiad Uned 2 a 4 y cymhwyster TGAU presennol tua 25 awr ar gyfer pob uned). Bydd y ddau asesiad di-arholiad yn cynnwys tasgau sy'n gofyn i ddysgwyr ymchwilio i astudiaeth achos. Er mwyn hwyluso hydrinedd, rydym yn rhagweld lefel isel o reolaeth ar gyfer elfen ymchwil y dasg, fel sy'n digwydd yn y cymhwyster presennol. Bydd lefel uwch o reolaeth ar waith pan fydd ymgeiswyr yn ymgymryd â'r tasgau dan asesiad er mwyn sicrhau dibynadwyedd a thegwch i ddysgwyr.

Credwn y dylai ein cymhwyster arfaethedig ddarparu cyfleoedd i ganolfannau ddatblygu rhaglen astudio sy'n ennyn diddordeb eu dysgwyr, yn unol â disgwyliadau'r Cwricwlwm i Gymru. Bydd Uned 1 yn darparu gwybodaeth 'graidd' eang am Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru. Credwn y bydd yr asesiadau di-arholiad arfaethedig ar gyfer Uned 2 ac Uned 3 yn ennyn diddordeb dysgwyr ac yn ffordd ddilys o asesu'r pwrpas a'r cynnwys gan eu bod yn caniatáu i ddysgwyr ddangos eu sgiliau mewn cyd-destunau priodol. Er mwyn sicrhau dilysrwydd yr asesiadau di-arholiad, byddwn yn sicrhau bod pob uned yn targedu'r un pwysoliadau o ran amcanion asesu ym mhob cyfres. Datblygir meini prawf asesu ar gyfer y ddau asesiad di-arholiad. Bydd athrawon yn derbyn pecyn o gefnogaeth a fydd yn sicrhau bod y meini prawf asesu'n cael eu cymhwyso'n gyson ar draws y canolfannau a dros amser. Byddwn yn sicrhau bod tasgau yn cael eu safoni er mwyn asesu'r un sgiliau, gyda meini prawf asesu cyffredin a dull safonol.

Byddwn yn parhau i ystyried y cydbwysedd rhwng hydrinedd, ymgysylltiad, dibynadwyedd a dilysrwydd ym mhob cam o ddatblygu'r cymhwyster.



© WJEC CBAC Ltd 2024.

# ATODIAD

## Gwybodaeth allweddol o'r Meini Prawf Cymeradwyo

Daeth y wybodaeth sy'n dilyn yn syth o Feini Prawf Cymeradwyo (https://cymwysterau.cymru/media/532jvasq/meini-prawf-cymeradwyo-tgau-iechyd-a-gofal-cymdeithasol-a-gofal-plant.pdf (cymwysterau.Cymru) Cymwysterau Cymru - ac mae'n rhaid i'n cymhwyster ni fodloni'r gofynion hyn.

**Diben**

1. Rhaid i'r **TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant:**
   1.1 gael ei ddylunio'n bennaf ar gyfer *Dysgwyr* rhwng 14 ac 16 oed
   1.2 adeiladu ar y ddealltwriaeth gysyniadol y mae *Dysgwyr* wedi'i datblygu drwy eu haddysg rhwng 3 ac 14 oed
   1.3. cefnogi addysgu a dysgu drwy ddarparu cynnwys ac asesiadau sy'n eang, yn heriol, yn berthnasol ac yn afaelgar ac sy'n cysylltu â'r Cwricwlwm i Gymru ac yn ei gefnogi, gan gynnwys ei bedwar diben
   1.4 galluogi *Dysgwyr* i ddatblygu sylfaen gref o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth sy'n cefnogi dilyniant i astudio ôl-16 ac sy'n eu paratoi ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith
   1.5 darparu gwybodaeth ystyrlon, deg a chywir am gyflawniad *Dysgwr* mewn pwnc sy'n amlygu'r hyn y mae *Dysgwyr* yn ei wybod, yn ei ddeall ac yn gallu ei wneud

**Nodau**

2. Rhaid i'r **TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant:**
   2.1 ganiatáu i *Ddysgwyr* archwilio amrywiaeth o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth mewn perthynas ag iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant
   2.2. darparu cyfleoedd i *Ddysgwyr* gael eu hasesu mewn amrywiaeth o gyd-destunau perthnasol ac ystyrlon i gefnogi'r dysgu sy'n alinio â Cod Addysg Cyd-berthynas a Rhywioldeb Cymwysterau Cymru, lle bo hynny'n briodol

3. Rhaid i'r cymhwyster **TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant** gefnogi *Dysgwyr* i:
   3.1. ddeall egwyddorion datblygiad, iechyd a llesiant dynol
   3.2. archwilio sut mae'r sector iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant yn cefnogi ac yn hyrwyddo datblygiad, iechyd a llesiant unigolion
   3.3. disgrifio egwyddorion, gwerthoedd a dulliau sylfaenol gwaith proffesiynol iechyd a gofal cymdeithas, a gofal plant yng Nghymru
   3.4. deall amodau ac afiechydon allweddol mewn oedolaeth a phlentyndod
   3.5. archwilio'r thema trawsbynciol o hawliau ac amrywiaeth hawliau dynol, yn enwedig mewn perthynas â darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant

**Amcanion Asesu**

13. Yn yr asesiad o'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sy'n ofynnol yn y cymhwyster, rhaid targedu'r amcanion asesu canlynol i gyfateb i'r pwysoli a nodir, o fewn goddefiant o +/- 5 pwynt canrannol.



© WJEC CBAC Ltd 2024.

| | | |
|---|---|---|
| **AA1** | **Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth** o gysyniadau, gwerthoedd a materion ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant. | 30% |
| **AA2** | **Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth** o gysyniadau, gwerthoedd a materion ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant. | 40% |
| **AA3** | **Dadansoddi, gwerthuso ac ymchwilio i werthoedd, materion a darpariaeth, gan lunio barn a chasgliadau wedi'u rhesymu** . | 30% |

**Cynllun asesu**

14. Rhaid i'r cymhwyster **TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant** fod yn unedol.

15. Rhaid i'r cymhwyster **TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant** ddangos yr amrediad yng nghyfran y marciau a ddyrennir i bob amcan asesu ac i bob uned.

16. Rhaid i'r fanyleb **TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant** gynnwys y trefniadau asesu canlynol:
    - 16.1. arholiad drwy asesiad sydd:
        - 16.1.1. yn asesu gwybodaeth a dealltwriaeth *Dysgwr* o iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant
        - 16.1.2 yn cyfrif am 40% o'r cymhwyster
        - 16.1.3 yn cael ei osod a'i farcio gan y corff dyfarnu
        - 16.1.4. ar gael yn ddigidol
        - 16.1.5 ar gael yng nghyfres haf Blwyddyn 10 ar gyfer y garfan gyntaf o *Ddysgwyr*
    - 16.2. dau asesiad di-arholiad sydd:
        - 16.2.1. yn cael eu gosod gan y corff dyfarnu, eu marcio gan y *Ganolfan*, a'u *Cymedroli* gan y corff dyfarnu
        - 16.2.2. rhaid gallu cael eu cyflwyno'n ddigidol
    - 16.3. rhaid i un o'r asesiadau di-arholiad ganolbwyntio ar gymhwyso gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth mewn perthynas ag iechyd a gofal cymdeithasol oedolion yng Nghymru. Rhaid i hyn gyfrif am 30% o'r cymhwyster
    - 16.4. rhaid i un o'r asesiadau di-arholiad arall ganolbwyntio ar gymhwyso gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth mewn perthynas â gofal plant yng Nghymru. Rhaid hyn gyfrif am 30% o'r cymhwyster

17. Rhaid i'r corff dyfarnu nodi ei reolau o ran ailsefyll ac ailgyflwyno ar gyfer **TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant** yn unol â'r *Amodau a Gofynion ar gyfer TGAU Cenedlaethol.*

DRAFT



© WJEC CBAC Ltd 2024.